COVID-19 Update: 4th May

Welcome to the COVID-19 update from Cardiff Council. Today we look at: details of green garden waste collections this coming Saturday; donating to the Cardiff Food Appeal; and how we're going about contacting those on the Government's shielding list, to offer help and support.

Details of green garden waste collections this coming Saturday

A quick reminder that households across Cardiff are receiving a one-off green garden waste collection in May.

If you have your waste collected on a **Tuesday**, your green garden waste will be picked up this coming **Saturday, 9th May 2020**.

Residents must, however, only put out garden waste for collection in their green wheelie bin or their reusable garden sacks.

Any additional garden waste, which is put in any other container, including plastic bags, will not be collected.

The following list shows the remaining additional collections taking place in each ward this month:

Saturday May 9th – Canton, Llandaff North, Llandaff, Velindre, Butetown, Grangetown and Riverside

Saturday May 16th – Cyncoed, Pentwyn, Plasnewydd, Gabalfa, Cathays and Penylan

Saturday May 23rd – Pontprennau/Old St Mellons, Trowbridge, Llanrumney, Adamsdown, Rumney and Splott

Saturday May 30th – Rhiwbina, Llanishen, Lisvane, Heath and Whitchurch

This comes after the green garden waste was collected in Creigiau/St Fagans, Radyr/Morganstown, Fairwater, Pentyrch, Tongwynlais, Ely and Caerau, last Saturday, May 2nd.

For questions and answers on the one-off garden waste collections during May, go to:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23726.html

Emergency Food Appeal

If you have already donated to the Cardiff Food Appeal, thank you so much!

Every penny is being spent on supporting people in need with emergency food & essentials throughout the COVID-19 crisis.

If you'd like to donate to the scheme visit:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/volunteering/Pages/default.aspx

As you will know the COVID-19 crisis is having a major impact right across Cardiff with many of our businesses and communities affected.

One particular challenge is the increasing demand for basic food supplies, particularly to support our most vulnerable people, either those required to self-isolate or those suffering from the economic impact of the crisis.

Donating to the food appeal is part of the wider Together for Cardiff campaign.

You can also find volunteering opportunities:
https://www.volunteercardiff.co.uk/volunteering/volunteering-opportunities/

Or look for help available in your area:
https://www.volunteercardiff.co.uk/help-from-others/

How we are contacting people who are shielding

Cardiff Council is calling people who are shielding from Coronavirus to offer help by delivering food parcels to them.

We are using a list supplied by Welsh Government and GPs. We will not ask you for any bank details nor will we ask you for any payment.

If you want delivery of a food parcel we will leave it outside your door for you to collect.

If you have any concerns or are unsure after receiving a phone call, please contact the Adviceline on 029 2081 1071.

For more info on how we can help please visit:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23667.html

Diweddariad COVID-19: 4 Mai

Croeso i ddiweddariad COVID-19 gan Cyngor Caerdydd. Heddiw rydym yn trafod y canlynol: manylion casgliadau gwastraff gardd gwyrdd y dydd Sadwrn yma; cyfrannu at Apêl Bwyd Caerdydd; ac sut rydyn ni'n mynd ati i gysylltu â'r rhai sydd ar restr warchod y Llywodraeth, i gynnig help a chymorth.

Manylion casgliadau gwastraff gardd gwyrdd y dydd Sadwrn yma.

Nodyn byr i'ch atgoffa y bydd cartrefi ledled Caerdydd yn cael casgliad gwastraff gardd gwyrdd untro ym mis Mai.

Os yw eich gwastraff yn cael ei gasglu ar **ddydd Mawrth**, bydd eich gwastraff gardd gwyrdd yn cael ei godi **ddydd Sadwrn, 9 Mai 2020**.

Fodd bynnag, rhaid i breswylwyr roi gwastraff gardd allan i'w gasglu yn eu biniau olwynion gwyrdd neu eu sachau gardd amldro yn unig.

Ni fydd unrhyw wastraff gardd ychwanegol a roddir mewn unrhyw gynhwysydd arall, gan gynnwys bagiau plastig, yn cael ei gasglu.

Mae'r rhestr ganlynol yn dangos gweddill y casgliadau ychwanegol a fydd yn digwydd ym mhob ward y mis hwn:

Dydd Sadwrn 9 Mai - Treganna, Ystum Taf, Llandaf, Felindre, Butetown, Grangetown a Glan-yr-afon

Dydd Sadwrn 16 Mai - Cyncoed, Pentwyn, Plasnewydd, Gabalfa, Cathays a Phen-y-lan

Dydd Sadwrn 23 Mai - Pontprennau/Pentref Llaneirwg, Trowbridge, Llanrhymni, Adamsdown, Tredelerch a Sblot

Dydd Sadwrn 30 Mai - Rhiwbeina, Llanisien, Llys-faen, Y Mynydd Bychan a'r Eglwys Newydd

Mae hyn yn dilyn y casgliad gwastraff gardd gwyrdd yng Nghreigiau/Sain Ffagan, Radur/Treforgan, y Tyllgoed, Pentyrch, Tongwynlais, Trelái a Chaerau, ddydd Sadwrn diwethaf, 2 Mai.

I weld cwestiynau ac atebion am y casgliadau gwastraff gardd untro yn ystod mis Mai, ewch i:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23726.html

Apêl Bwyd Brys

Os ydych chi eisoes wedi rhoi i Apêl Bwyd Caerdydd, diolch yn fawr!

Mae pob ceiniog yn cael ei gwario ar gefnogi pobl mewn angen gyda bwyd a hanfodion brys trwy gydol yr argyfwng COVID-19.

I roddi ewch I:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/gwirfoddoli/Pages/default.aspx

Fel y gwyddoch, mae argyfwng COVID-19 yn cael effaith sylweddol ledled Caerdydd gyda llawer o'n busnesau a'n cymunedau wedi dioddef.

Un her benodol yw'r galw cynyddol am gyflenwadau bwyd sylfaenol, yn benodol i gefnogi ein pobl fwyaf bregus, naill ai y rheiny sydd angen hunanynysu neu'r rheiny sy'n dioddef o effaith economaidd yr argyfwng.

Mae rhoi i'r apêl fwyd yn rhan o'r ymgyrch Gyda'n Gilydd dros Gaerdydd ehangach.

Gallwch hefyd ganfod cyfleoedd gwirfoddoli:
https://www.volunteercardiff.co.uk/gwirfoddoli/cyfleoedd-gwirfoddoli/?lang=cy

Neu chwilio am help sydd ar gael yn eich ardal:
https://www.volunteercardiff.co.uk/?lang=cy

Dyma sut rydym yn cysylltu â phobl sy'n cysgodi

Mae Cyngor Caerdydd yn ffonio pobl sy'n eu gwarchod eu hunain rhag Coronafeirws i gynnig help drwy fynd â pharseli bwyd iddynt.

Rydyn ni'n defnyddio rhestr wedi ei darparu gan Lywodraeth Cymru a Meddygon Teulu. Fyddwn ni ddim yn gofyn i chi am unrhyw fanylion banc nac yn gofyn i chi am unrhyw daliad. Os ydych am i ni ddod â pharsel bwyd i chi, byddwn yn ei adael y tu allan i'r drws i chi ei gasglu.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu os ydych yn ansicr ar ôl derbyn galwad ffôn, cysylltwch â'r Llinell Gyngor ar 029 2081 1071.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y gallwn helpu, ewch i:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23668.html